

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Ysbyty Deintyddol y Brifysgol, Bwrdd  
Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad arolygu: 24 Ebrill 2023

Dyddiad cyhoeddi: 25 Gorffennaf 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [AGIC@llyw.cymru](mailto:AGIC@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom.....	5
2. Crynodeb o'r arolygiad .....	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym .....	8
• Ansawdd Profiad y Claf .....	8
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....	11
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .....	16
4. Y camau nesaf.....	19
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	20
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith.....	21
Atodiad C - Cynllun gwella .....	22

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ysbyty Deintyddol y Brifysgol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 24 Chwefror 2023. Gwnaethom ymweld â'r trydydd llawr, sy'n darparu gofal deintyddol i gleifion, sy'n cael eu sgrinio fel rhai addas i gael triniaeth gan israddedigion deintyddol o dan oruchwyliaeth staff cymwysedig.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 20 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad. Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y bwrdd iechyd yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol am eu profiadau yn yr ysbyty deintyddol. Gwelsom y staff yn trin y cleifion gyda charedigrwydd a pharch. Rhoddwyd digon o wybodaeth ac arweiniad i gleifion ynglŷn â'u triniaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai gwybodaeth ddwyieithog fod yn fwy hygyrch i gleifion a dylid gwneud y 'Cynnig Rhagweithiol' yn unol â Safonau'r Gymraeg.
- Rhaid i'r lifftiau sydd wedi torri yn yr ysbyty deintyddol gael eu hatgyweirio.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dywedodd y cleifion fod y gwasanaeth roeddent wedi'i gael yn 'dda iawn' neu'n 'dda'
- Roedd yr ysbyty deintyddol yn ymdrechu i drefnu apwyntiad i'r cleifion gael eu gweld yn ystod amser a oedd yn addas iddynt.

### Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd mesurau priodol ar waith i roi gofal diogel ac effeithiol i gleifion a sicrhau bod risgiau i'r staff a'r cleifion wedi cael eu lleihau i'r eithaf. Roedd yr ardaloedd triniaeth yn cynnwys y cyfarpar angenrheidiol i ymgymryd â'r triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan yr ysbyty deintyddol. Gwelsom fod system addas ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu rheoli a'u storio'n ddiogel. Dywedwyd wrthym fod nifer o ollyngiadau wedi bod yn yr adeilad dros amser a gwnaethom ofyn am ddiweddariad gan y bwrdd iechyd ar hynt y gwaith ystadau i adnewyddu'r ardaloedd dan sylw. Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol ar waith mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi. Fodd bynnag, mae angen cymryd camau pellach i wella'r broses o storio gwastraff clinigol mewn ffordd ddiogel ac addas ar drydydd llawr yr ysbyty deintyddol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai offer deintyddol gael eu gosod mewn cynhwysydd cyn mynd â nhw i'r ardal frwnt.
- Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod myfyrwyr yn cadw cofnodion manwl ar y pryd mewn perthynas â phob agwedd ar archwiliadau pelydr X o gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cafodd proses effeithiol o lanhau a dihalogi offer deintyddol y gellir eu haildefnyddio ei disgrifio a'i dangos.

## **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth**

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom grŵp o staff a oedd yn cydweithio'n dda ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion. Gwelsom fod yr hyfforddiant yn gyfredol a bod tystysgrifau yn cael eu cadw i ddangos hyn. Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd amrywiaeth o bolisiau ar gael yn hwylus i'r staff i'w helpu i ymgymryd â'u rolau.

## 3. Yr hyn a nodwyd gennym

### Ansawdd Profiad y Claf

#### Adborth gan Gleifion

Ar y cyfan, rhoddwyd adborth cadarnhaol gan y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC. Dywedodd pob claf fod y gwasanaeth a ddarperir gan yr ysbyty deintyddol yn 'dda iawn' neu'n 'dda'. Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

*“Mae'r amgylchedd yn gyfeillgar ac yn broffesiynol iawn. Mae'r myfyrwyr yn drwyadl iawn ac yn esbonio popeth, sy'n gwneud i mi deimlo'n gyfforddus. Proffesiynol iawn drwyddi draw.”*

*“Mae'r myfyrwyr i gyd wedi bod yn wych, yn gyfeillgar ac yn broffesiynol.”*

*“Fe wnaeth y myfyriwr a roddodd driniaeth i mi esbonio popeth ar y pryd, gan wneud i mi deimlo'n gyfforddus.”*

#### Canolbwyntio ar yr Unigolyn

##### Hybu Iechyd

Roedd amrywiaeth o daflenni hybu iechyd ar gael yn yr ystafell aros y gallai cleifion fynd â nhw. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am gadw pwysau iach, rhoi'r gorau i smygu a chyngor da ar hylendid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar sampl o ddau gofnod claf. Gwelsom fod y cleifion yn cael gwybodaeth am iechyd y geg yn ôl yr angen. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y staff wedi esbonio gofal y geg wrthynt mewn ffordd y gallent ei ddeall. Dywedwyd wrthym hefyd bod y staff wedi darparu cyfarwyddiadau ôl-ofal iddynt ar sut i gynnal iechyd y geg da.

##### Gofal Urddasol a Pharchus

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom y myfyrwyr a'r staff cymwysedig yn trin cleifion a'u cynrychiolwyr yn briodol a gyda charedigrwydd. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch.

Roedd cleifion yn cael eu trin mewn ystafelloedd mawr, agored eu cynllun, gydag ardaloedd penodol ar gyfer pob cadair a'r offer deintyddol cysylltiedig. Roedd hyn



yn golygu nad oedd cleifion yn cael yr un preifatrwydd ag y byddent yn ei gael mewn deintyddfa. Fodd bynnag, roedd yn galluogi'r staff cymwysedig i gyfathrebu'n agored â'r myfyrwyr drwy'r amser.

Roedd desg y dderbynfa yn yr ardal aros a gwelsom fod staff y dderbynfa yn ystyriol o'r angen i gadw cyfrinachedd cleifion wrth siarad â'r cleifion.

Nodwyd gennym nad oedd egwyddorion ymarfer moesegol craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol y mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol deintyddol cofrestredig eu dilyn bob amser yn cael eu harddangos yn yr ysbyty deintyddol. Er nad yw'r myfyrwyr wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol eto, dylai fod modd i'r cleifion ddisgwyl gofal o'r un safon wrth gael triniaeth. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried arddangos yr egwyddorion ymarfer mewn ardal lle y gall cleifion eu gweld yn hawdd yn unol â Safon 6.6.11 o ganllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar Safonau i'r Tîm Deintyddol.

### **Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael iddynt, ynghyd â risgiau a buddiannau'r driniaeth. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod wedi cymryd cymaint o ran ag yr hoffent mewn penderfyniadau ynghylch eu triniaeth.

## **Amserol**

### **Gofal Amserol**

Gwelsom nad oedd cleifion a oedd wedi dod i'r ysbyty deintyddol ar ddiwrnod yr arolygiad yn gorfod aros braidd ddim a dywedwyd wrthym fod yr ysbyty yn cadw at amser apwyntiadau fel arfer. Dywedwyd wrthym y byddai'r derbynnydd yn sôn wrth y cleifion am amseroedd aros ac unrhyw resymau dros oedi.

Mae'r cleifion yn siarad yn uniongyrchol â'r myfyrwyr i drefnu amser addas ar gyfer eu hapwyntiad nesaf. Roedd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod yn 'hawdd' cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Dywedodd chwarter y cleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod y rhif ffôn cyswllt ar gyfer y llinell gymorth frys ar gyfer gwasanaeth deintyddol yn cael ei arddangos yn yr ardal aros. Rhaid i gleifion gwblhau ffurflen cyn dechrau triniaeth sy'n hysbysu cleifion eu bod yn gallu dod i'r clinig brys yn yr ysbyty deintyddol pe bai problem ddeintyddol frys yn codi ar unrhyw adeg.

## **Tegwch**

### **Cyfathrebu ac iaith**

Caiff anghenion iaith cleifion eu hasesu ar adeg cwblhau holiadur cyn sgrinio. Dywedwyd wrthym, oherwydd pwysigrwydd cyfathrebu clir rhwng myfyrwyr a chleifion, y byddai cleifion y nodwyd bod ganddynt anawsterau iaith yn cael eu cyfeirio i gael triniaeth yn yr Uned Ddeintyddol Gofal Sylfaenol yn Ysbyty Dewi Sant.

Dim ond yn Saesneg ar y cyfan roedd y wybodaeth ysgrifenedig a oedd wedi'i harddangos yn yr ardal aros. Roedd rhai eithriadau, megis taflenni dwyieithog Gweithio i Wella. Dywedodd nifer bach o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym mai Cymraeg oedd eu hiaith gyntaf. Dywedodd pob un o'r cleifion hyn nad oedd cyfle i siarad Cymraeg wedi cael ei gynnig iddynt drwy gydol eu taith fel claf.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth ddwyieithog yn fwy hygyrch i gleifion a gweithredu'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn unol â Safonau'r Gymraeg.**

### **Hawliau a Chydraddoldeb**

Mae aelodau o'r staff sy'n ymuno â'r bwrdd iechyd yn cael eu hatgoffa am eu cyfrifoldeb i drin pob claf ac aelod o'r cyhoedd gydag urddas a heb wahaniaethu na dangos rhagfarn fel rhan o'r broses sefydlu. Mae hyn hefyd yn cynnwys darllen y polisiau perthnasol megis Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol ac Urddas yn y Gwaith. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur nad oeddent wedi wynebu gwahaniaethu wrth asesu triniaeth yn yr ysbyty deintyddol.

Dywedwyd wrthym fod cadeiriau olwyn ar gael i helpu cleifion ag anawsterau symudedd. Ar ddiwrnod yr arolygiad, dim ond un lifft oedd yn gweithio yn yr ysbyty deintyddol.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob lifft a oedd wedi torri yn yr ysbyty deintyddol yn cael eu hatgyweirio.**

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Rheoli Risg

Gwelsom fod mesurau priodol ar waith i sicrhau bod risgiau i iechyd a diogelwch y staff a'r cleifion sy'n ymweld â'r ysbyty deintyddol yn cael eu lleihau i'r eithaf. Mae hyn oherwydd y canlynol:

- Roedd nifer o bolisiau a gweithdrefnau cyfredol ynglŷn ag iechyd a diogelwch ac addaswydd yr amgylchedd ar waith er mwyn rhoi arweiniad i'r staff.
- Roedd asesiadau o risgiau iechyd a diogelwch yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac roedd camau wedi cael eu cymryd i liniaru'r risgiau a nodwyd.
- Roedd poster cyfraith iechyd a diogelwch cymeradwy yn cael ei arddangos yn glir i'r staff ei weld
- Roedd trefniadau addas ar waith o ran diogelwch tân, gan gynnwys cynnal a chadw'r cyfarpar tân yn rheolaidd ac roedd arwyddion allanfeydd tân yn cael eu harddangos yn glir.

Roedd yr ardaloedd triniaeth yn cynnwys y cyfarpar angenrheidiol i ymgymryd â'r triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan yr ysbyty deintyddol. Yn gyffredinol, roedd y safle yn ymddangos yn lân ac yn daclus. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi ar ddifrod dŵr ar rai o'r teils nenfwd yn yr ardaloedd triniaeth. Dywedwyd wrthym fod nifer o ollyngiadau wedi bod yn yr adeilad dros amser, o'r pedwerydd llawr i'r trydydd llawr, ac i'r trydydd llawr i'r ail llawr. Roedd yn golygu nad oedd modd defnyddio rhai o'r manau deintyddol. Dywedodd y staff wrthym fod gwaith ystadau i unioni'r problemau hyn yn cael ei wneud ym mis Mehefin 2023.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd roi diweddariad i AGIC ar hynt y gwaith ystadau i adnewyddu'r pibellau a'r teils nenfwd ar y lloriau yn yr ysbyty deintyddol yr effeithiwyd arnynt.**

## Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig cyfredol ar waith mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi. Roedd arweinydd rheoli heintiau dynodedig wedi cael ei nodi a oedd yn gyfrifol am atal a rheoli heintiau yn yr ysbyty deintyddol.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff clinigol sy'n gweithio ar y trydydd llawr wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau a gwelsom dystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau'r staff a welsom.

Roedd cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael yn hwylus i'r staff ei ddefnyddio. Tîm cadw tŷ yr ysbyty oedd yn gyfrifol am lanhau, a gwelsom amserlenni glanhau'r amgylchedd yn cael eu dilyn. Gwelsom fod yr ystafell aros a'r ardaloedd triniaeth yn amlwg yn lân a'u bod wedi'u dodrefnu mewn ffordd a oedd yn hwyluso trefniadau glanhau effeithiol. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod yr amgylchedd 'yn lân iawn' yn eu barn nhw. Roeddent hefyd o'r farn bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn gan y staff.

Cafodd trefniadau addas ar gyfer glanhau a dihalogi offer deintyddol aml dro yn effeithiol eu disgrifio a'u dangos gan y staff. Roedd cyfleuster dihalogi canolog wedi'i leoli ar safle'r ysbyty a oedd yn glanhau offer yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-01. Roedd hambyrddau glân o offer deintyddol yn cael eu dosbarthu i'r ysbyty deintyddol gan y cyfleuster canolog, ac roeddent yn cael eu storio mewn ardal 'lân' ddynodedig er mwyn i'r staff fynd â nhw a'u defnyddio i drin y cleifion. Roedd ardal 'frwnt' hefyd ar gael i storio offer wedi'u defnyddio cyn iddynt gael eu hanfon yn ôl i'r cyfleuster canolog i'w halogi. Nodwyd gennym fod offer wedi'u defnyddio yn cael eu gosod yn eu bagiau sterileiddio unwaith eto ac yna'u cludo o'r ardal driniaeth i'r ardal frwnt.

**Rydym yn argymhell y dylid gosod offer wedi'u defnyddio mewn cynhwysydd diddos nad oes modd ei dyllu cyn cael eu cludo i'r ardal frwnt er mwyn cyfyngu ar y posibilrwydd o anafiadau yn cael eu hachosi gan offer miniog pe bai rhywun yn cwmpo.**

Gwelsom fod y gwastraff clinigol a gynhyrchir gan yr ysbyty deintyddol ar y trydydd llawr yn cael ei storio mewn ystafell wrth ymyl yr ardal aros. Yn ystod yr arolygiad, roedd yn achos pryder gweld nad oedd y biniau storio wedi'u cloi, a hefyd eu bod yn gorlenwi â nifer mawr o fagiau o wastraff clinigol. Gwnaethom godi hyn ar unwaith gyda'r uwch-staff a drefnodd i'r bagiau o wastraff clinigol gael eu gwaredu. Dywedwyd wrthym y byddai rhagor o drafodaethau yn cael eu cynnal i wella'r broses o storio bagiau o wastraff clinigol yn y dyfodol ar y trydydd llawr.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd roi diweddariad i AGIC ar y camau pellach a gymerir i wella'r broses o storio gwastraff clinigol mewn ffordd ddiogel ac addas ar drydydd llawr yr ysbyty deintyddol.**

#### **Rheoli Meddyginiaethau**

Rhoddyd trosolwg o bolisi rheoli meddyginiaethau'r bwrdd iechyd i ni a nodwyd y dylai fod wedi cael ei adnewyddu ym mis Mawrth 2018 ac felly nad oedd yn gyfredol mwyach.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd i AGIC fod polisi rheoli meddyginiaethau cyfredol ar waith er mwyn rhoi arweiniad i'r staff.**

Gwnaethom edrych ar y trefniadau sydd ar waith ar y trydydd llawr ar gyfer cyfarpar a meddyginiaethau a ddefnyddir os bydd argyfwng. Gwelsom fod cyfarpar brys ar gael a'u bod yn cael eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod eitemau yn dal i fod yn gyfredol ac yn addas i'w defnyddio. Fodd bynnag, nodwyd y pryderon canlynol gennym:

- Dim ond ar lawr gwaelod ac ail lawr yr ysbyty deintyddol roedd Glwcagon a Midasolam Bochol yn cael eu cadw. Roedd hyn yn golygu na fyddai gan y staff sy'n gweithio ar y llawr cyntaf a'r trydydd llawr y cyffuriau hyn wrth law ar unwaith mewn argyfwng.
- Nodwyd gennym nad oedd y cyfarpar brys a oedd ar gael yn cynnwys unrhyw fasnau wyneb maint 0 neu faint 1 na llwybrau anadlu oroffaryngeal.

Trafodwyd y materion hyn â'r uwch-staff a ddywedodd wrthym fod y trefniadau hyn wedi cael eu rhoi ar waith gan y bwrdd iechyd ond y byddent yn ceisio rhagor o gyngor.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd roi diwedddariad i AGIC ar unrhyw gamau a gymerwyd ers yr arolygiad o ran a yw cyffuriau brys ar gael ar bob llawr ac a ddylid ychwanegu masgiau wyneb llai o faint a llwybrau anadlu at yr offer brys.**

Yn ystod yr arolygiad aethom i'r ail lawr i weld a oedd Midasolam Bochol a Glwcagon ar gael. Gwelsom fod y ddau gyffur yn cael eu storio yn ôl y gofyn, ond nodwyd gennym nad oedd dos o Fidasolam Bochol i oedolyn ar gael, dim ond dos i blentyn. Codwyd y mater hwn â'r uwch-staff a drefnodd ar unwaith i archebu dos i oedolyn gan fferyllfa'r ysbyty.

Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff clinigol ar y trydydd llawr wedi cwblhau hyfforddiant dadebru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwelsom dystiolaeth o hyn yn y sampl o ffeiliau staff a adolygwyd gennym.

### **Diogelu Plant ac Oedolion**

Roedd polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd siart lif hefyd ar gael a oedd yn nodi gyda pha aelodau o'r staff y dylid cysylltu ar gyfer atgyfeiriadau diogelu a chynghor.

Gwelsom dystiolaeth o dystysgrifau cyfredol ar gyfer hyfforddiant diogelu plant ac oedolion i bob aelod o'r staff clinigol ar y trydydd llawr. Gwnaethom hefyd gadarnhau bod pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod ganddynt wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn helpu i sicrhau bod staff yn addas i weithio gyda chleifion.

## **Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol**

Gwelsom fod cyfarpar addas ar gael yn yr ardaloedd triniaeth i ddarparu gofal a thriniaeth ddeintyddol. Roedd y cyfarpar a welsom yn lân ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg.

Roedd archwiliadau pelydr-X yn cael eu cynnal yn yr ysbyty deintyddol. Gwelsom fod y ddogfennaeth ofynnol ar gael i ddangos bod trefniadau diogel ar waith ar gyfer defnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod y profion gofynnol wedi'u cynnal ar y cyfarpar.

Gwelsom fod y cleifion yn cael gwybodaeth ddigonol am fuddiannau a risgiau dod i gysylltiad ag ymbelydredd ìoneiddio cyn cael archwiliad pelydr-X. Gwnaethom gadarnhau bod pob aelod o'r staff clinigol a oedd yn gweithio ar y trydydd llawr, sy'n defnyddio archwiliadau pelydr-X, wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol ar y pwnc hwn.

## **Gofal Effeithiol**

Gwelsom fod y staff clinigol yn glir o ran eu rolau a'u cyfrifoldebau gwaith. Gwelsom hefyd fod y staff yn ceisio cyngor proffesiynol perthnasol lle bo angen.

Roedd trefniadau ar waith i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd cleifion yn cael eu hysbysu cyn cael triniaeth na all y gwasanaeth roi triniaeth gymhleth fel gwaith coronau a phontydd helaeth a fyddai y tu hwnt i brofiad a gallu myfyrwyr deintyddol dan hyfforddiant.

## **Cofnodion y Cleifion**

Gwelsom fod system addas ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu rheoli a'u storio'n ddiogel. Roedd pob un o'r cofnodion a welsom yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, megis enw a dyddiad geni'r claf. At hynny, roedd y rheswm pam roedd y cleifion wedi dod i'r ysbyty a, lle y bo'n briodol, y symptomau a ddisgrifiwyd gan y cleifion wedi'u cofnodi.

Gwelsom dystiolaeth o siartiau sylfaenol llawn, archwiliadau periodontol sylfaenol, archwiliadau o'r meinweoedd meddal, ac archwiliadau y tu allan i'r geg a'r tu mewn i'r geg. Gofynnwyd i'r claf am hanes meddygol cychwynnol ac roedd y cofnodion yn dangos bod yr hanes meddygol yn cael ei ddiweddarau ar ôl pob triniaeth. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC wrthym fod y staff wedi cadarnhau eu hanes meddygol cyn iddynt gael triniaeth.

Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd pob myfyriwr yn dangos tystiolaeth o'r cyfiawnhad dros gynnal archwiliadau pelydr-X ar gleifion. Gwelsom nad oedd pob delwedd pelydr-X wedi cael ei graddio o ran ansawdd.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod myfyrwyr yn cadw cofnodion manwl ar y pryd mewn perthynas â phob agwedd ar archwiliadau pelydr X ar gleifion.**

### **Effeithlon**

Gwelsom fod y cyfleusterau ar y safle yn briodol ar gyfer y gwasanaethau deintyddol y bwriedir eu darparu ac roedd prosesau ar waith ar gyfer gweithredu'r adran ar y trydydd llawr yn effeithlon.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Roedd uwch-aelodau o'r staff megis uwch-nyrsys deintyddol a rheolwyr nyrsio yn goruchwyllo'r gwaith o redeg y gwasanaeth a ddarperir ar y trydydd llawr o ddydd i ddydd.

Cafodd trefniadau addas eu disgrifio ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol â thîm o staff clinigol. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd staff a chyfathrebu ad hoc â'r staff drwy e-bost neu wyneb yn wyneb. Roedd cofnodion cyfarfodydd yn cael eu dosbarthu er mwyn helpu i sicrhau bod yr aelodau hynny o'r staff nad oeddent yn y cyfarfod yn cael y diweddaraf ar faterion a oedd yn ymwneud â gwaith.

Roedd pob aelod o'r staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion ac roedd hyn yn cael ei ategu gan ystod o bolisiau a gweithdrefnau. Roedd cofrestr risg ar waith a oedd yn nodi risgiau posibl i weithrediad effeithiol a diogel yr ysbyty deintyddol a'r camau a oedd yn cael eu cymryd i liniaru'r rhain.

## Y gweithlu

### Gweithlu Medrus a Galluog

Dywedwyd wrthym am y broses a ddefnyddir i recriwtio aelodau newydd o staff ac roedd polisiau ar waith i gefnogi'r broses o gyflogi a sefydlu staff.

Cedwir ffeiliau staff a oedd yn cynnwys tystiolaeth o'u cofrestriad â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, eu contract cyflogaeth, eu statws imiwnedd o ran Hepatitis B, eu gwiriad gan y DBS a'u hyswariant indemniad proffesiynol.

Gwelsom dystiolaeth bod tystysgrifau hyfforddiant yn cael eu cadw ar gyfer pob aelod o'r staff a'u bod wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau er mwyn helpu i fodloni eu gofynion datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Gwelsom fod cydymffurfiaeth â hyfforddiant ar gyfer yr holl hyfforddiant gorfodol yn dda ac roedd system effeithiol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant.

## Diwylliant

### Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Cafodd y trefniadau eu disgrifio ar gyfer ceisio adborth gan y cleifion am eu profiadau o ddefnyddio'r ysbyty deintyddol. Roedd posteri â chodau QR yn cael eu harddangos yn yr ardal aros lle y gallai cleifion gael gafael ar holiadur a'i gwblhau.



Hefyd, gofynnir i gleifion roi adborth i'r staff clinigol ar berfformiad y myfyrwyr er mwyn helpu i nodi ardaloedd i'w gwella yn eu dysgu.

Roedd posterï Gweithio i Wella yn cael eu harddangos yn yr ardal aros a oedd yn hysbysu cleifion ynglŷn â sut i wneud cwyn pe baent am wneud hynny. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth am sut y byddai'r ysbyty deintyddol yn ymdrin ag unrhyw bryderon / cwynion ar ôl triniaeth.

## Gwybodaeth

### Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol

Gwelsom fod systemau cyfathrebu addas ar waith er mwyn helpu i gefnogi'r broses o weithredu'r ysbyty deintyddol.

## Dysgu, Gwella ac Ymchwil

### Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Cawsom enghreifftiau o archwiliadau a oedd yn cael eu cynnal fel rhan o ymrwymiad y bwrdd iechyd i weithgarwch gwella ansawdd. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau o hylendid dwylo, rheoli dyfeisiau meddygol deintyddol, cyfarpar ac offer deintyddol, cynllun amgylcheddol a glanhau a dihalogi.

## Dull Systemau Cyfan

### Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu

Gall cleifion gael gafael ar y gwasanaeth naill ai drwy hunanatgyfeirio neu drwy atgyfeiriad gan weithwyr proffesiynol gofal sylfaenol. Mae'r ysbyty yn derbyn atgyfeiriadau oddi wrth Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol, y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol, Ymarferwyr Meddygol Cyffredinol ac atgyfeiriadau trydyddol gan arbenigwyr ysbyty. Caiff y cleifion sy'n atgyfeirio eu hunain eu sgrinio gan aelod o'r staff academiaidd er mwyn penderfynu a ydynt yn addas i gael eu trin gan israddedigion.

Fodd bynnag, soniodd cleifion am oedi mawr rhwng cael eu hatgyfeirio a chael triniaeth. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn teimlo eu bod yn gallu cael y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir, dywedodd rhai cleifion:

*“Fe gymerodd beth amser.”*

*“Fe gymerodd amser hir i gael fy nerbyn oddi ar y rhestr aros.”*

Dylai'r bwrdd iechyd fyfyrrio ar yr adborth a nodi a ellid gwella'r amseroedd aros rhwng atgyfeiriad a thriniaeth i gleifion.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ysbyty Deintyddol y Brifysgol

Dyddiad yr arolygiad: 24 Ebrill 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn				

# Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Deintyddol y Brifysgol

Dyddiad yr arolygiad: 24 Ebrill 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dywedodd nifer bach o'r cleifion wrthym nad oedd cyfle i siarad Cymraeg wedi cael ei gynnig iddynt yn ystod eu taith fel cleifion.	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth ddwyieithog yn fwy hygyrch i gleifion a gweithredu'r 'Cynnig Rhagweithiol' yn unol â Safonau'r Gymraeg.	Bydd y Gyfarwyddiaeth yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu gwybodaeth i gleifion er mwyn: <ul style="list-style-type: none"><li>Sicrhau bod gwybodaeth ddwyieithog ar gael i gleifion.</li><li>Codi ymwybyddiaeth ymhlith y staff o becyn gwybodaeth 'Cynnig Rhagweithiol' Llywodraeth Cymru ac</li></ul>	Rheolwr Dros Dro y Gyfarwyddiaeth/Rheolwr Llywodraethu ac Ansawdd	Medi 2023

		<p>ystyried a chytuno ar bethau ymarferol i wneud ‘Cynnig Rhagweithiol’ e.e. sicrhau bod gan staff sy'n siarad Cymraeg arwyddluniau Cymraeg ar eu dillad gwaith neu laniardau.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Arddangos posteri drwy'r adran gyfan yn tynnu sylw at arwyddluniau Cymraeg ar ddillad gwaith staff sy'n siarad Cymraeg.</li> <li>• Gosod cardiau cyfarch yn y dderbynfa ac wrth bob ffôn i gefnogi/annog y staff i gyfarch pobl sy'n ffonio'r adran/dod i'r adran yn Gymraeg ac yn Saesneg.</li> </ul>		
Ar ddiwrnod yr arolygiad, dim ond un lifft oedd yn	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob lifft a oedd wedi torri	Mae ceisiadau cynnal a chadw i atgyweirio'r lifft wedi cael eu cyflwyno i	Rheolwr y Gwasanaeth Technegol Deintyddol	Wedi'i gwblhau.

<p><b>gweithio yn yr ysbyty deintyddol.</b></p>	<p>yn yr ysbyty deintyddol yn cael eu hatgyweirio.</p>	<p>Ddesg Gymorth yr Adran Ystadau.</p> <p>Y rheswm dros yr oedi cyn ei atgyweirio oedd bod angen dod o hyd i gydrannau o dramor.</p> <p>Mae'r lifftiau'n gweithio'n iawn bellach.</p>		
<p><b>Dywedwyd wrthym fod nifer o ollyngiadau wedi bod yn yr adeilad a oedd yn golygu nad oedd modd defnyddio rhai ardaloedd deintyddol.</b></p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd roi diweddariad i AGIC ar hynt y gwaith ystadau i adnewyddu'r pibellau a'r teils nenfwd ar y lloriau yn yr ysbyty deintyddol yr effeithiwyd arnynt.</p>	<p>Disgwylir i gynllun gwaith ddechrau ar 26 Mehefin 2023. Bydd hyn yn ymdrin â nifer y gollyngiadau ar Glinig 1 Addysg Ddeintyddol a Chlinig y Staff.</p>	<p>Rheolwr Dros Dro y Gyfarwyddiaeth</p>	<p>Hydref 2023</p>
<p><b>Roedd offer wedi'u defnyddio yn cael eu gosod yn eu bagiau sterileiddio unwaith eto ac wedyn eu cludo o'r ardal driniaeth i'r ardal frwnt a allai arwain at y posibilrwydd o anaf a achoswyd gan offer miniog pe bai rhywun yn cwmpo.</b></p>	<p>Rydym yn argymhell y dylid gosod offer wedi'u defnyddio mewn cynhwysydd diddos nad oes modd ei dyllu cyn eu cludo i'r ardal frwnt.</p>	<p>Cynhaliwyd cyfarfod â staff atal a rheoli heintiau ac iechyd a diogelwch a'r Gyfarwyddiaeth ddeintyddol ar 27 Mehefin 2023 i drafod yr argymhelliad a lluniwyd y cynllun canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal asesiad risg ffurfiol</li> </ul>	<p>Rheolwr Llywodraethu ac Ansawdd</p>	<p>Gorffennaf 2023</p>



		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygu hambyrddau offer posibl eraill sydd â chaeadau sy'n cau'n sownd</li> <li>• Ystyried dulliau eraill o gludo'r offer wedi'u halogi i'r ardal offer brwnt er mwyn osgoi cwympiadau posibl. E.e. trolïau anhyblyg</li> <li>• Mae cyfarfod dilynol wedi'i drefnu ar 10 Gorffennaf 2023.</li> </ul>		
Yn ystod yr arolygiad, gwelwyd nad oedd biniau storio wedi'u cloi, a hefyd eu bod yn gorlenwi â nifer mawr o fagiau o wastraff clinigol.	Rhaid i'r bwrdd iechyd roi diweddariad i AGIC ar y camau pellach a gymerir i wella'r broses o storio gwastraff clinigol mewn ffordd ddiogel ac addas ar drydydd llawr yr ysbyty deintyddol.	Mae clo cyfunrif wedi cael ei osod yn yr ardal y mae'r tîm cadw tŷ yn cael mynediad iddi.  Mae'r gwastraff yn cael ei gasglu bob dydd.	Rheolwr Dros Dro y Gyfarwyddiaeth	Wedi'i gwblhau
Rhoddwyd trosolwg o bolisi rheoli meddyginiaethau'r bwrdd iechyd i ni ond nid oedd yn gyfredol i bob	Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd i AGIC fod polisi rheoli meddyginiaethau cyfredol ar	Mae'r polisi rheoli meddyginiaethau wedi cael ei ddiweddarau ac mae'n mynd drwy broses	Cyfarwyddwr Clinigol Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau/arweinydd lechyd a	Gorffennaf 2023

<p>golwg, oherwydd, yn ôl y dyddiad adolygu nesaf ar y polisi, y dylai fod wedi cael ei adnewyddu ym mis Mawrth 2018.</p>	<p>waith er mwyn rhoi arweiniad i'r staff.</p>	<p>gadarnhau'r bwrdd iechyd ac yn aros i gael ei gymeradwyo yn y Grŵp Rheoli Meddyginiaethau Corfforaethol ar 6 Gorffennaf 2023 a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad.</p>	<p>Diogelwch/arweinydd Atal a Rheoli Heintiau</p>	
<p>Roedd gennym bryderon nad oedd Glwcagon na Midasolam Bochol ar gael ar bob llawr o'r ysbyty deintyddol ac nad oedd y cyfarpar brys yn cynnwys masgiau wyneb na llwybrau anadlu llai o faint.</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd roi diwedddariad i AGIC ar unrhyw gamau a gymerwyd ers yr arolygiad o ran a yw cyffuriau brys ar gael ar bob llawr ac a ddylid ychwanegu masgiau wyneb llai o faint a llwybrau anadlu at yr offer brys.</p>	<p>Cynhaliwyd adolygiad o'r cyffuriau brys meddygol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Glwcagon a Midasolam Bochol bellach yn cael eu cadw ar bob troli adfer ar bob llawr yn yr ysbyty deintyddol.</li> <li>• Mae'r cyfarpar ar y troli adfer i oedolion yn unol â rhestr safonol y DU o gyfarpar dadebru.</li> </ul>	<p>Arweinydd Iechyd a Diogelwch/Rheolwr Nyrsio Deintyddol</p> <p>Uwch-nyrs, Gwasanaeth Dadebru Caerdydd a'r Fro</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Nid oedd pob myfyriwr yn dangos tystiolaeth o'r cyfiawnhad dros gynnal archwiliadau pelydr-X ar</p>	<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod myfyrwyr yn cadw cofnodion manwl ar y pryd mewn perthynas â phob agwedd ar</p>	<p>Caiff archwiliad o system cofnodion cleifion electronig Salud ei gynnal i werthuso cydymffurfiaeth.</p>	<p>Radiolegwyr Ymgynghorol</p>	<p>Mehefin 2023</p>

<p>gleifion na graddio ansawdd delweddau pelydr-X.</p>	<p>archwiliadau pelydr X ar gleifion.</p>	<p>Mae cofnod dyddiol o'r archwiliadau pelydr-X yn cael ei gadw yn yr adran sydd wedi cael ei ddiweddarau'n ddiweddar a bydd y staff yn cael eu hatgoffa er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gofyniad hwn.</p> <p>Bydd e-bost atgoffa yn cael ei anfon at y staff a'i rhannu yn y cyfarfod Ansawdd a Diogelwch deintyddol ar 28 Mehefin lle y bydd trafodaeth ehangach i ystyried sut y gellir gwella'r ffordd y caiff gwybodaeth am ddiogelwch e.e. briffiadau diogelwch ac ati ei rhannu</p>	<p>Rheolwr Llywodraethu ac Ansawdd</p>	<p>Mehefin 2023</p>
--	---	--	--	---------------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):** Rowena Griffiths  
**Teitl swydd:** Rheolwr Llywodraethu ac Ansawdd  
**Dyddiad:** 20 Mehefin 2023